- **Cwynion**
  Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â chydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaeth, safonau polisi a safonau gweithredu.

Cymeradwywyd yr adroddiad hwn gan Gyngor y Brifysgol i'w gyhoeddi ar ein gwefan www.aber.ac.uk/cy/cgg

Mae **atodiad 1** yn cynnwys disgrifiad o'r lefelau sgiliau Cymraeg (A0 - C2) a chyfeirir atynt yn yr adroddiad, ac **atodiad 2** yn cynnwys disgrifiad o'r lefelau Dysgu Cymraeg (Mynediad – Hyfedredd).

## Datblygiadau 2022-23

### Is-gynllun y Gymraeg a'i Diwylliant 2019-2023

Dyma bedwaredd flwyddyn gweithredu Is-gynllun y Gymraeg a'i Diwylliant 2019-2023.

Pwrpas yr Is-gynllun yw amlygu'r prif weithgareddau sy'n gwneud Prifysgol Aberystwyth yn sefydliad dwyieithog uchelgeisiol, sy'n galluogi ac yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

Yn ystod 2022-23 trefnwyd gweithgareddau i hybu'r Gymraeg fel rhan o ddathliadau'r Brifysgol yn 150. Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022 oedd man cychwyn blwyddyn dathliadau 150 y Brifysgol, dathliadau a fu'n ganolbwynt i raglen ddigwyddiadau'r Brifysgol yn ystod yr wythnos.

Lansiwyd cyfrol 'Ceiniogau'r Werin' ym mis Hydref 2022. Mae'r gyfrol ddwyieithog yn cynnwys cyfoeth o straeon a hanes y Brifysgol drwy 150 o wrthrychau, gan roi sylw amlwg i'r Gymraeg a'i diwylliant. Yn eu plith, ceir erthyglau am hanes Neuadd Pantycelyn, UMCA, datblygu polisïau dwyieithrwydd a chyfieithu ar y pryd; yn ogystal â straeon am y brotest iaith gyntaf ar bont Trefechan 1963, datblygiadau o ran Dysgu'r Gymraeg, gwaith T.H Parry Williams a Waldo Williams.

Cynhaliwyd gig mawreddog yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth ar 15 Hydref 2022 i ddathlu treftadaeth gerddorol y Brifysgol dros y blynyddoedd, gyda'r noson yn cynnwys llu o'r artistiaid a bandiau a fu'n gyn-fyfyrwyr yn y Brifysgol.

I gyd fynd â'r 'Gig Mawr 150' cyhoeddwyd arddangosfa Pop Aber yng Nghanolfan y Celfyddydau. Cydweithiodd Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg gydag Archif y Llyfrgell Genedlaethol ar yr arddangosfa oedd yn cynnwys lluniau a chloriau recordiau dros 30 o artistiaid, ynghyd â chasgliad o bosteri gigs UMCA dros y blynyddoedd. Fe ail ddangoswyd yr arddangosfa fel rhan o ddathliadau Dydd Miwsig Cymru ym mis Chwefror 2023 ac mae'r arddangosfa bellach wedi symud i safle parhaol yn Neuadd Pantycelyn.

### Is-Strategaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg 2022-27

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, yn 2022 cyhoeddwyd Is-strategaeth academaidd cyfrwng Cymraeg newydd er mwyn ehangu a datblygu'r ddarpariaeth academaidd, y gwaith ymchwil a'r gweithgaredd ysgolheigaidd ac ethos dwyieithog campws y Brifysgol. Bydd yr is-

## Sesiynau Sgwrsio

Yn ystod y flwyddyn bu nifer o gyfleoedd ar gael i staff y Brifysgol ddefnyddio eu Cymraeg mewn sesiynau sgwrsio anffurfiol. Cynhelir y sesiynau isod i ddysgwyr ac i siaradwyr Cymraeg.

- **Sesiwn Sgwrsio pob lefel**
  Canolfan y Celfyddydau 1-1.30, dydd Iau bob pythefnos.
- **Cinio Cymraeg pob lefel**
  Y Neuadd Fwyd 12.30yp dydd Mercher bob 3 wythnos.
- **Sesiwn Sgwrsio lefel Sylfaen**
  Zoom 1.30 – 2yp, dydd Mawrth wythnosol.
- **Sesiwn Sgwrsio lefel Mynediad**
  Zoom 2.15 – 2.45yp, dydd Mawrth wythnosol.
- **Sesiwn Sgwrsio lefel Mynediad**
  Zoom 12 – 12.30yp, dydd Mercher wythnosol.

## Cynlluniau Iaith Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol

Ers 2020-21, mae gan adrannau Gwasanaethau Proffesiynol gynlluniau iaith sy'n cynnwys cyfres o amcanion a chaiff eu diweddaru'n flynyddol.

Mae'r cynlluniau hyn yn gyfle i asesu ein cydymffurfiaeth â gofynion Safonau'r Gymraeg, ac i adnabod cyfleoedd newydd o fewn adrannau i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant yn ystod y flwyddyn.

Mae'r gwaith o ymgysylltu â'r adrannau er mwyn adnabod cyfleoedd pellach yn 2023-24 wedi ail afael ym **mis Mehefin 2023**. Fel rhan o'r gwaith, bydd adrannau yn nodi diweddariad ar amcanion 2022. Wrth edrych ar ymatebion 2020 a 2021, dangosodd yr ymatebion ddarlun lled gadarnhaol o gydymffurfiaeth ac ymwybyddiaeth o ofynion Safonau'r Gymraeg. Wrth i ni dderbyn diweddariad ar gyfer 2023 yn ystod mis Gorffennaf ac Awst 2023 bydd Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn ymgysylltu ag adrannau i drafod unrhyw heriau penodol neu gyfleoedd i hybu defnydd y Gymraeg.

Ymhellach, mae'r Cynlluniau yn nodi manylion sgiliau Cymraeg staff yr adran (yn ôl lefel) ac felly'n ffordd i fesur a thrafod unrhyw heriau neu gyfleoedd penodol o ran darparu gwasanaethau dwyieithog a chynyddu capsiti dwyieithog yr adran.

## Amcanion yn dilyn yr Arolwg Defnydd Iaith (staff) diwethaf

Ym mis Medi 2022 cymeradwyodd Gweithrediaeth a Senedd y Brifysgol amcanion a chamau gweithredu yn dilyn cynnal arolwg defnydd iaith staff diwethaf (Hydref 2021). Dechreuwyd ar y gwaith o weithredu'r amcanion hyn yn ystod y flwyddyn a disgwylir i'r gwaith hwn barhau yn ystod 2023-24. Bwriedir cynnal yr arolwg defnydd iaith staff nesaf ym mis Tachwedd 2023.

Yn 2023, dechreuodd Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg gydweithio gyda Chyfadran y Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithasol er mwyn rhannu syniadau ac adnabod cyfleoedd a gweithgareddau penodol i hybu defnydd y Gymraeg yn y gyfadran. Wrth gydweithio gyda

Dirprwy Is-ganghellor y Gyfadran a Rheolwr y Gyfadran, y bwriad yw datblygu cyfres o amcanion penodol yn ystod y flwyddyn sy'n dod er mwyn rhannu arfer da ar draws y sefydliad. Byddwn yn parhau i weithredu a datblygu amcanion ac arfer da yn ystod 2023-24.

Yn ystod y flwyddyn ail sefydlwyd y 'cinio Cymraeg' ar y campws lle mae dysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn cwrdd yn gymdeithasol bob 3 wythnos yn y Neuadd Fwyd. Cynhelir clybiau paned wyneb yn wyneb bob pythefnos yng Nghanolfan y Celfyddydau yn ogystal â 4 sesiwn wythnosol ar lein ar gyfer dysgwyr ar lefelau Mynediad 1 a 2, a Sylfaen 1 a 2 drwy'r rhaglen Cymraeg Gwaith.

Bu'r gwaith o ddatblygu adnodd *MailTip* er mwyn galluogi staff i dangos eu bod yn siarad/dysgu'r Gymraeg ar y gweill gan Wasanaethau Gwybodaeth. Disgwylir cwblhau'r gwaith ar ddechrau tymor 2023-24. Bydd yr adnodd *Mailtip* yn galluogi staff gynnwys un o'r negeseuon canlynol fydd yn ymddangos ar eu proffiliau Outlook.

> ***Rwy'n siarad Cymraeg / I speak Welsh*** (neu)
> ***Rwy'n siarad rhywfaint o Gymraeg / I speak some Welsh***

Bwriad y neges yw rhoi gwybod i staff eraill fod y derbynnydd yn siarad Cymraeg cyn iddynt anfon yr e-bost. Bydd Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn hyrwyddo'r adnodd yn ystod 2023-24.

## Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

### Trefniadau Cydymffurfio

Yn unol â'r Safonau, mae gan y Brifysgol ddogfen sy'n egluro'r camau yr ydym wedi cymryd i gydymffurfio â'r holl safonau - Trefniadau Goruchwylio Safonau'r Gymraeg

Yn ystod 2022-23, bu adrannau Gwasanaethau proffesiynol yn parhau i weithredu eu cynlluniau iaith a'r amcanion gytunwyd yn wreiddiol yn 2020-21 er mwyn hybu'r Gymraeg a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n flynyddol ac mae'n gyfle i Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ymgysylltu ag Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol a dod i adnabod cyfleoedd i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn fewnol o fewn rhaglenni gwaith yr adrannau ac hefyd i asesu cydymffurfiaeth â'r Safonau. Dechreuodd y gwaith o adolygu'r cynlluniau ar gyfer 2023-24 ym mis Gorffennaf 2023.

### Canolfan Gwasanaethau 'r Gymraeg

Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg sy'n gyfrifol am gynorthwyo adrannau'r Brifysgol i weithredu Safonau'r Gymraeg, ac maent yn cynnig cyngor i staff er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ar draws y Brifysgol. Mae'r Ganolfan yn gartref i Gangen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'n cynnwys tîm cyfieithu sy'n darparu gwasanaeth cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd i adrannau'r Brifysgol.

| Cymhariaeth rhwng 31 Gorffennaf 2022 a 31 Gorffennaf 2023 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel** | **Nifer Llafar** | **% Llafar** | **Nifer Ysgrifenedig** | **% Ysgrifenedig** |
| A0 | +43 | +2.95% | +48 | +3.41% |
| A1 | +20 | +1.44% | +26 | +1.67% |
| A2 | +27 | +1.56% | +21 | +1.19% |
| B1 | +5 | +0.41% | +16 | +0.98% |
| B2 | +4 | +0.38% | +5 | +0.45% |
| C1 | +18 | +1.04% | +8 | +0.50% |
| C2 | +24 | +1.53% | +27 | +1.61% |
| Heb gofnodi | -188 | -9.31% | -198 | -9.81% |
| **Cyfanswm** | **-47** | | **-47** | |

## Hyfforddiant (Safon 135)

**Cyrsiau Iechyd a Diogelwch**

Ni gynhaliwyd hyfforddiant Iechyd a Diogelwch cyfrwng Cymraeg i staff yn ystod y flwyddyn. Mae cynlluniau ar y gweill i ddarparu cyrsiau Cymorth Cyntaf, Swyddogion Tân ac Asesiadau Risg yn 2023-24.

**Cyrsiau Hyfforddiant eraill**

Cynigwyd y cyrsiau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg isod yn ystod y flwyddyn.

| **Cwrs:** | **Rheoli eich Tîm (Cyfrwng Cymraeg)** |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 09/11/22 – Canslwyd<br>18/01/23 - Canslwyd |
| **Nifer Gofrestrodd / Fynychodd:** | 2 |
| **% Fynychodd/Gofrestrodd ar y cwrs cyfrwng Cymraeg:** | 5.9% |
| **Gwybodaeth Bellach** | Canslwyd y cwrs gan bod y nifer a gofrestrodd yn isel. |

| **Cwrs:** | **Effaith ac Effeithiolrwydd Personol (Cyfrwng Cymraeg)** |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 15/2/23 - Canslwyd |
| **Nifer Gofrestrodd / Fynychodd:** | 0 |
| **% Fynychodd/Gofrestrodd ar y cwrs cyfrwng Cymraeg:** | 0% |
| **Gwybodaeth Bellach** | Canslwyd oherwydd ni dderbyniwyd cofrestriadau. Cynhelir y cwrs nesaf ar 12 Hydref 2023. |

